



Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

 09:30 – 12:20

 03/07/2023

 MS Teams

Cadeirydd	Marian Wyn Jones
-----------	------------------

Yn Bresennol (Aelodau)		Teitl	Sefydliad
Marian Wyn Jones (Cadeirydd)	MW-J	Aelod Annibynnol, Cadeirydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Alistair Klaas Neill	AN	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Ruth Glazzard	RG	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Marilyn Bryan Jones	MB-J	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Yn bresennol			
Julie Ash	JA	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Henry Bales	HB	Dirprwy Reolwr Atal Twyll	Atal Twyll Lleol Caerdydd a'r Fro
Stephen Chaney	StC	Dirprwy Bennaeth Archwilio Mewnol	Archwilio Mewnol Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru
Nathan Couch	NC	Arweinydd Archwilio Perfformiad	Archwilio Cymru
Mark Cox	MC	Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Paul Evans	PE	Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Julie Francis	JF	Pennaeth Gwasanaethau Masnachol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Lisa Harte (ar gyfer eitem 4.2)	LH	Rheolwr Archwilio	Archwilio Mewnol Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru
Carwyn Lloyd-Jones	CL-J	Cyfarwyddwr TGCh	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Claire Osmundsen-Little	CO-L	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Julie Robinson	JR	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Sabel Wiliam	SW	Archwilio Cymru	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau			
Darren Griffiths	DG	Arweinydd Archwilio (Perfformiad)	Archwilio Cymru
Gareth Lavington	GL	Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol	Atal Twyll Lleol Caerdydd a'r Fro
David Tomalin	DT	Uwch Arweinydd Archwilio	Archwilio Cymru

Acronymau			
Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AS	Archwilio a Sicrwydd
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	WASPI	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru

BAF	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd		
-----	-----------------------------	--	--

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
1	MATERION RHAGARWEINIOL		
1.1	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.</p> <p>Rhodddwyd croeso arbennig i'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.</p> <p>Cynhaliwyd y cyfarfod trwy Microsoft Teams ac atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai'n cael ei bostio ar wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dilyn y cyfarfod.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<p>Ymddiheuriadau absenoldeb</p> <p>Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darren Griffiths, Archwilio Cymru • David Tomalin, Archwilio Cymru • Gareth Lavington, Atal Twyll Caerdydd a'r Fro 	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<p>Datganiadau o Fuddiannau</p> <p>Datganodd Marian Wyn Jones, y Cadeirydd ei buddiant yn eitem 5.3 Adroddiad Iaith Gymraeg ar ôl bod yn rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru a ddatblygodd y Cynllun Gweithredu 'Mwy na Geiriau'.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R un Datganiad o Fuddiant</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
2	AGENDA CYDSYNIO - I'W CHYMERADWYO		
2.1	<p>Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfodydd 18 Ebrill 2023 – Talfyriad Cyhoeddus a Phreifat.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>GYMERADWYO'R cofnodion fel cofnod cywir o'r drafodaeth a fyddai ar gael i'r cyhoedd.</p>	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi

2.2	<p>Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.3	<p>Blaengynllun Gwaith</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI cynnwys Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.4	<p>Polisiâu</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>GYMERADWYO'r tri pholisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polisi Iechyd Meddwl, Llesiant a Rheoli Straen • Polisi Pecynnau Amheus a Bygythiadau Bom • Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol 	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.5	<p>Diweddariad Ymholiad COVID-19</p> <p>Rhodddwyd sicrwydd bod y diweddariad o heddiw wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod AIA Gorffennaf ac y byddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfodydd yn y dyfodol pan fo hynny'n briodol.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Adroddiad Diweddaru ar yr Ymchwiliad i COVID-19</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.6	<p>Datganiad Datgarboneiddio ar Drafnidiaeth a Chaffael</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Datganiad Datgarboneiddio ar Drafnidiaeth a Chaffael</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.7	<p>Adroddiad Cylchlythyr Iechyd Cymru</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>DDERBYN Adroddiad Cylchlythyr Iechyd Cymru er SICRWYDD.</p>	Er Sicrwydd	Dim i'w nodi
RHAN 3 – BUSNES Y CYFARFOD			
3.1	<p>Cofnod Gweithredu</p> <p>Gwahoddwyd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) i gyflwyno'r Cofnod Gweithredu. Nododd y Pwyllgor fod un cam gweithredu wedi'i nodi o'r cyfarfod diwethaf wedi'i gwblhau a'i ddogfennu yn y Log Gweithredu.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI statws y Cofnod Gweithredu.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 4	ARCHWILIO AC ATAL TWYLL		

<p>4.1</p>	<p>Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol</p> <p>Cyflwynodd Stephen Chaney, Pennaeth Archwilio Mewnol Dros Dro Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (StC) y Cynllun Cynnydd Archwilio Mewnol sef casgliad cynllun 2022/2023.</p> <p>Darparodd StC yr uchafbwyntiau o'r adroddiad cynnydd gan gynghori:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau adroddiad terfynol cynllun 2022/2023. • Byddai un o'r adroddiadau sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwella Seiberddiogelwch yn cael ei drafod yn sesiwn breifat y cyfarfod ond cadarnhawyd ei fod wedi derbyn sgôr sicrwydd cyffredinol Sylweddol. Roedd yr ail adroddiad, Y Ganolfan Ragoriaeth, i'w drafod yn fanwl yn yr eitem nesaf. • Ar y cyfan, cwblhawyd 14 adolygiad, gyda phump sylweddol a saith sicrwydd rhesymol. Byddai'r Farn yn cael ei chwblhau erbyn y cyfarfod nesaf. <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R diweddariad Archwilio Mewnol ar gyfer SICRWYDD.</p>	<p>Er Sicrwydd</p>	<p>Dim i'w nodi</p>
<p>4.2</p>	<p>Adroddiadau Adolygiad Archwilio Mewnol</p> <p>Canolfan Ragoriaeth</p> <p>Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd Rhesymol.</p> <p>Amlinellodd Stephen Chaney (StC), Dirprwy Bennaeth Archwilio Mewnol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, y gwaith a wnaed yn yr adolygiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd rhai argymhellion ond canfuwyd bod cynnydd y gwaith prosiect yn dda. • Roedd rheolaethau da ar waith, gweithredwyd ar y trefniadau llywodraethu ac roedd statws y prosiect yn cael ei fonitro. • Codwyd argymhelliad ynghylch cryfhau rhai o'r rheolaethau, a fyddai'n dod yn bwysicach fyth wrth i fwy o brosiectau a rhaglenni gwaith gael eu datblygu. <p>Ychwanegodd Claire Osmundsen-Little (CO-L), Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y bu nifer o adolygiadau amrywiol yng nghynllun 2022/23 gyda rhai yn cael eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Cadarnhaodd StC y bydd y cynllun ar gyfer 2023/2024 yn canolbwyntio llawer mwy ar 'fusnes fel arfer' yn ogystal ag</p>	<p>Er Sicrwydd</p>	<p>Dim i'w nodi</p>

adolygiadau cylchdro i gael sylw ehangach, ond yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf, a ystyriwyd yn gyfnod pontio wrth i Iechyd a Gofal Digidol Cymru sefydlu ei hun, canolbwyntiwyd ar risgiau uchel a oedd yn dod i'r amlwg.

Nododd CO-L fod nifer o themâu yn deillio o'r adolygiad; sef codi'r cwestiwn o ran achosion busnes yn ymwneud â'r maes digidol. Roedd yr adolygiad hefyd yn herio'r meddylfryd ynghylch darpariaeth sy'n seiliedig ar gynnyrch. Cadarnhaodd COL fod gwaith ar y strategaeth rheoli dogfennau ar y gweill a fydd yn cynorthwyo dealltwriaeth o sut i ddsbarthu a fframio dogfennau.

Roedd Carwyn Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr TGCh (CL-J) yn bresennol i ymateb i ymholiadau a godwyd ar yr adolygiad a chadarnhaodd ei fod yn adroddiad defnyddiol i dynnu sylw at y broses o drosglwyddo o rywbeth a oedd yn cael ei reoli'n bennaf a'i yrru gan gontractwyr i rywbeth lle'r oedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn recriwtio ac yn adeiladu ei dîm ei hun i gymryd y gweithredu drosodd a'r gefnogaeth barhaus iddo.

Nododd y Pwyllgor nad oedd fframwaith rheoli prosiect cyffredin yn yr adroddiad. Ymatebodd CL-J bod nifer o ffactorau a phwysau a oedd wedi atal hyn rhag cael ei ddatblygu, ond rhoddodd sicrwydd y byddai'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect yn cael ei gymryd drwy Grŵp Adolygu Digidol a Dysgu Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Cytunodd CD ei fod yn adroddiad defnyddiol a rhoddodd ei sylwadau ar ddwy adran o'r adroddiad:

- Trefniadau llywodraethu rhaglen h.y mae'n cyfeirio at arolygiaeth y Bwrdd/Pwyllgor nad yw mor gryf ag y gallai fod, er bod llywodraethu'r rhaglen yn gryf iawn.
- Y Fframwaith Rheoli Prosiect a thempledi/dogfennau safonol. Gyda dros 200 o staff rhaglen yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru neu staff cysylltiedig â rhaglenni, roedd yn ffordd ddefnyddiol o atgoffa pobl o fanteision sicrhau bod dull safonol yn cael ei fabwysiadu ar draws y sefydliad.

Holodd Alistair Klaas Neill, Aelod Annibynnol (AKN) sut y gallai fod yn bosibl defnyddio cyfleoedd i ddod â chymaryddion allanol i mewn, h.y y rhai y gellid eu hystyried yn gymharydd a chyfeirbwynt priodol o ran materion archwilio mewnol, i sicrhau nad yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn canolbwyntio'n fewnol.

	<p>Cadarnhaodd StC ei bod yn anodd defnyddio cymharydd allanol oherwydd natur unigryw Iechyd a Gofal Digidol Cymru ond aseswyd yr adolygiadau yn erbyn gwaelodlin/disgwyliadau sefydledig. Roedd gwaith yn gorgyffwrdd â chleientiaid eraill felly roedd dau safbwynt gwahanol.</p> <p>Sicrhaodd Lisa Harte (LH) y Pwyllgor fod yr adolygiad wedi'i gwblhau ar adeg pan oedd y rhaglen yn cael ei chau a bod y Ganolfan Ragoriaeth yn mynd i 'Fusnes fel Arfer' felly roedd yn ddefnyddiol cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddysgu sefydliadol ehangach.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>DDERBYN yr adroddiad ar gyfer SICRWYDD.</p>		
4.3	<p>Diweddariad Archwilio Cymru i'r Pwyllgor</p> <p>Cyflwynodd Nathan Couch (NC), Archwilio Cymru Ddiweddariad Pwyllgor Archwilio Cymru a rhoddodd ddiweddariad am y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad cyfredol ac a gynlluniwyd a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddodd Sabel Wiliam (SW) ddiweddariad ar y datganiadau ariannol yn cadarnhau y bydd yr archwiliad o gyfrifon yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 12 Gorffennaf. Ychwanegodd Mark Cox (MC), Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid, er mai'r un broses oedd hi bob blwyddyn, cyflwynodd eleni her ychwanegol y safonau archwilio newydd. Diolchodd MC i Archwilio Cymru am eu cefnogaeth a chynghor drwy gydol y broses. • Gwaith Archwilio Perfformiad - roedd nifer o adolygiadau wedi'u cynllunio neu ar y gweill. Roedd gwaith maes Asesiad Strwythuredig 2023/24 wedi'i gynllunio ar gyfer Gorffennaf a dechrau Awst. Byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Hydref, er bod hyn i'w gadarnhau, gyda chymeradwyaeth ffurfiol gan y Pwyllgor hwn a'r Bwrdd yn y Flwyddyn Newydd. • Roedd Rhaglen Ddigidol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn y cyfnod adrodd a'r bwriad oedd adrodd ar hyn yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref. • Gwaith prosiect lleol – Cynlluniwyd adolygiad o drefniadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer y flwyddyn newydd. • Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau newydd perthnasol ers y cyfarfod diwethaf. 	Er Sicrwydd	Cam Gweithredu: Sleidiau Asesiad Strwythuredig i'w rhannu.

- Roedd Blaenraglen Waith Perfformiad ac Archwilio wedi'i chyhoeddi, a oedd yn canolbwyntio ar bedair thema; mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, gwynwch gwasanaethau a mynediad a gwasanaethau cyhoeddus wedi'u rheoli'n dda. O ddiddordeb arbennig i Iechyd a Gofal Digidol Cymru oedd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, anghydraddoldebau Iechyd, dilyniant sero net, cyflawni strategaeth ddigidol Cymru a heriau gweithlu'r sector cyhoeddus.
- Nid oedd unrhyw ymgynghoriadau perthnasol gan Archwilio Cymru ar y gweill.

Roedd y Pwyllgor yn falch o weld y cydweithio cryf rhwng Archwilio Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Cyflwynodd NC rai sleidiau ar y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig yn 2023.

- Bydd asesiad strwythuredig craidd yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol mewn 4 maes.
 - Effeithiolrwydd, cydlyniant a thryloywder y Bwrdd a Phwyllgorau
 - Systemau corfforaethol o sicrwydd
 - Trefniadau cynllunio corfforaethol
 - Trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol

Roedd rhai meysydd posibl ar gyfer cynnal archwiliad dwfn cylchol yn cynnwys:

- Y Gweithlu (2022)
- Adnoddau Digidol (2023)
- Llywodraethu Gwybodaeth/seiberddiogelwch
- Ystadau ac asedau ffisegol eraill
- Trefniadau comisiynu
- Gofal iechyd darbodus/gofal iechyd seiliedig ar werth
- Ymgysylltu â Phartneriaid a Rhanddeiliaid
- Trefniadau arweinyddiaeth a chynllun/strwythurau sefydliadol.

Y cwestiwn i'w ateb o Asesiad Strwythuredig 2023 oedd 'A yw trefniadau corfforaethol y sefydliad yn cefnogi llywodraethu da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau?'

Byddai'r ffocws ar yr Asesiad Strwythuredig yn cymryd

	<p>agwedd symlach, h.y dull mwy seiliedig ar risg.</p> <p>Cadarnhaodd CD ei fod yn cefnogi'r dull hwn a'i fod wedi trafod ag Archwilio Cymru a fyddent yn gallu darparu ar gyfer maes gwaith y nodwyd bod angen adolygiad manylach arno ac roedd Archwilio Cymru wedi cytuno y byddent yn gallu darparu ar gyfer hyn.</p> <p>CAMAU GWEITHREDU: 20230703-A01 Roedd y sleidiau i'w rhannu gyda'r Pwyllgor.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI Diweddariad Archwilio Cymru i'r Pwyllgor ar gyfer SICRWYDD.</p>		
4.4	<p>Cyfleoedd Asesu Strwythuredig ar gyfer Dysgu</p> <p>Cyflwynodd Laura Tolley, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol (LT) y Cyfleoedd Asesu Strwythuredig ar gyfer y Cynllun Gweithredu Dysgu a oedd wedi codi o'r Asesiad Strwythuredig ffurfiol cyntaf a thynnodd sylw at rai pwyntiau allweddol:-</p> <p>Canfu gwaith Asesiad Strwythuredig 2022 y canlynol am Iechyd a Gofal Digidol Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd yn cael ei arwain yn dda ac roedd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran sefydlu a gwreiddio trefniadau priodol i gefnogi llywodraethu da; • Roedd ganddo dulliau cynllunio effeithiol, ond roedd angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu ei strategaeth tymor hwy a chynnwys cerrig milltir a thargedau mewn rhai cynlluniau i alluogi monitro cynnydd yn effeithiol; • Roedd ganddo ddull effeithiol ar y cyfan o gynllunio, monitro ac adrodd, mae model ariannu'r sefydliad yn cyflwyno risgiau y mae angen eu rheoli'n weithredol yn y tymor canolig i'r hirdymor; ac • Roedd yn ymroddedig iawn i gefnogi llesiant staff ac roedd dulliau strategol da ar waith ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol a'r ystâd. <p>Edrychodd yr adroddiad yn benodol ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac roedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu o 18 o gamau gweithredu, ac roedd naw ohonynt wedi'u cwblhau a'r naw arall yn mynd rhagddynt yn dda.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Cyfleoedd Asesu Strwythuredig ar gyfer y Cynllun</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Gweithredu Dysgu		
4.5	<p>Traciwr Camau Gweithredu Archwilio</p> <p>Cadarnhaodd Julie Ash, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol (JA), yn dilyn cyngor gan Archwilio Mewnol, fod un cam gweithredu, yn dibynnu ar drydydd parti, yn cael ei reoli trwy gofnod ar wahân ar gyfer olrhain.</p> <p>Adolygwyd 53 o gamau gweithredu yn y cyfarfod diwethaf a chaewyd 21 gan adael cyfanswm o 32 o gamau gweithredu agored. Derbyniodd y Pwyllgor bum adroddiad newydd yn y cyfarfod diwethaf a oedd yn cynnwys 22 cam gweithredu newydd. Roedd y rhain wedi'u hychwanegu at y cofnod a oedd bellach yn cynnwys cyfanswm o 54 o gamau gweithredu agored. O'r camau hyn, ystyriwyd bod 33 wedi'u cwblhau, 19 ar darged i'w cwblhau erbyn eu dyddiad targed, un nad oedd ar y trywydd iawn i'w gwblhau ac un a oedd wedi mynd heibio'r dyddiad gweithredu ond bellach wedi'i gwblhau ers cyhoeddi'r adroddiad.</p> <p>Oherwydd eu cynnwys technegol, byddai pum cam gweithredu yn cael eu hadolygu yn y sesiwn breifat.</p> <p>Roedd y Pwyllgor yn falch ac wedi'u calonogi o nodi'r cynnydd a wnaed o ran cwblhau'r camau gweithredu a oedd yn weddill.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Traciwr Gweithredu Archwilio</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.6	<p>Adroddiad Diweddarau ar Atal Twyll Lleol</p> <p>Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Diweddarau Atal Twyll Lleol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 19 Mehefin 2023.</p> <p>Tynnodd Henry Bales, Dirprwy Bennaeth Atal Twyll (HB), sylw at y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Atal Twyll yn mynychu ymsefydlu corfforaethol a mynychwyd dwy sesiwn yn ystod y cyfnod hwn. • Hyfforddiant Staff - Bydd Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn cael rhywfaint o hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll penodol. • Roedd cyfanswm o chwe digwyddiad gweminar wedi'u cynnal ac roedd dau aelod o Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn bresennol. • Roedd e-bost hyrwyddo wedi'i anfon at benaethiaid Adrannau i hyrwyddo'r dysgu newydd a'r ap Atal Twyll. • Roedd rhai sefydliadau wedi gwneud yr hyfforddiant Atal Twyll yn orfodol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n 	Nodwyd	Cam Gweithredu: HB i ddsbarthu canllawiau ar sut i gael mynediad at y modiwl E-ddysgu Atal Twyll ar ESR.

	<p>gwneud yr hyfforddiant ac roedd hwn hefyd yn cael ei dreialu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn yr adran Gyllid cyn cael ei gyflwyno i weddill y sefydliad erbyn diwedd y flwyddyn. Adroddwyd am rai problemau gyda lleoli'r modiwl E-ddysgu ar ESR. Cytunodd HB i ddsbarthu canllawiau. Cadarnhaodd CO-L mai bwriad Iechyd a Gofal Digidol Cymru oedd gwneud hyfforddiant Atal Twyll yn orfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd un atgyfeiriad newydd ynghylch salwch gweithwyr yn cael ei ymchwilio a byddai'n cael ei drafod mewn sesiwn breifat • Roedd cyfanswm o ddau Asesiad Risg Twyll wedi'u cwblhau • Cwblhaodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei ymarfer Menter Twyll Genedlaethol cyntaf. <p>CAMAU GWEITHREDU: 20230703-A02 HB i ddsbarthu canllawiau ar sut i gael mynediad at y modiwl E-ddysgu Atal Twyll ar ESR.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Adroddiad Diweddarar ar Atal Twyll.</p>		
RHAN 5	ADRODDIADAU LLYWODRAETHU		
5.1	<p>Adroddiad Risg Corfforaethol</p> <p>Cyflwynodd CD drosolwg o'r Adroddiad Risg Corfforaethol a rhoddodd yr uchafbwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd ar ddatganiad derbynoldeb risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru a goddefiannau ym Mwrdd AIA ym mis Mai. • Roedd 28 o risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a oedd wedi gostwng ychydig ers y cyfarfod diwethaf. • Newidiadau ar y gofrestr: Roedd saith risg newydd wedi'u hychwanegu ers y cyfarfod diwethaf. Ychwanegwyd y risg o gronni Dyled Dechnegol gan Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithredoedd, ac awgrymwyd y dylid ailddosbarthu'r risg hon a mynd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol i'w goruchwylio. Roedd y risgiau newydd eraill i'w nodi; roedd dau yn gyllid cynaliadwy ar gyfer Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a chyllid cam 3 yr Adnodd Data Cenedlaethol. Cadarnhaodd CO-L fod cyllid chwe 	Nodwyd	<p>Cam Gweithredu: Acronymau i'w cynnwys ym mhob adroddiad.</p>

mis wedi'i gytuno i ddechrau ar gyfer yr Adnodd Data Cenedlaethol ond yn dilyn cyfarfod â Llywodraeth Cymru, roedd 12 mis llawn bellach wedi'i gytuno ac roedd y llythyr ariannu ar y ffordd. Am na chafwyd cadarnhad ar ddechrau'r flwyddyn, rhoddwyd stop ar y recriwtio, felly byddai'n cael ei wirio a oedd angen y cyllid llawn bellach. Roedd angen mwy o sicrwydd yn y maes hwn gan mai dim ond blwyddyn o gyllid a gytunwyd.

- Cafodd deg risg eu dileu ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r mwyafrif, sy'n ymwneud yn bennaf â risgiau ariannol, wedi gostwng mewn sgôr ond yn parhau i fod yn risgiau. Rhoddodd Mark Cox (MC) ddiweddariad byr ar y risgiau hyn.
- Y risg sefydliadol uchaf oedd y cynnydd yn incwm Cytundeb Lefel Gwasanaeth GIG Cymru a oedd bellach wedi dod oddi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Roedd y broses wedi cymryd llawer o amser ac wedi cynnwys y cynnydd sylweddol cyntaf i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth, ar ôl dyblu o 8m i 16m gyda throsglwyddo rhaglenni i 'Fusnes fel Arfer'. Rhoddodd CO-L ddiweddariad bod sefyllfa wedi'i chyrraedd lle'r oedd pob Bwrdd Iechyd yn cytuno i'r taliadau uwch ac na fu angen mynd at ganolwr.
- Byddai'r ddau risg preifat yn cael eu trafod yn y sesiwn Breifat.

Trafodwyd y mater o acronymau a gofynnwyd a ellid dweud y geiriau'n llawn yn y lle cyntaf cyn dychwelyd i'r acronym byddai'n ddefnyddiol.

CAMAU GWEITHREDU: 20230703-A03 Gofynnwyd am gynnwys mynegai mwy manwl o acronymau ym mhob adroddiad.

Cytunodd y Pwyllgor mai'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol fyddai â'r brif oruchwyliaeth o'r risg o ran Dyled Dechnegol ond gan fod gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru lefel uchel o asedau anniriaethol h.y systemau y mae angen i Archwilio a Sicrwydd eu dilysu fel Pwyllgor byddai'n cynnal diddordeb arbennig ychwanegol ynddo wrth symud ymlaen.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r nifer uchel o risgiau sy'n cael eu hisraddio i'w rheoli ar lefel Cyfarwyddiaeth.

Penderfynodd y Pwyllgor:

NODI'r newid aseiniad risg DHCW0316 i'r Pwyllgor

	Llywodraethu a Diogelwch Digidol a statws y Gofrestr Risg Gorfforaethol a THRAFOD y Risgiau Corfforaethol a neilltuwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.		
5.2	<p>Archwiliad Dwfn o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, Meysydd i'w Hadolygu</p> <p>Cyflwynodd CD Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a oedd yn dwyn ynghyd mewn un lle y risgiau strategol i gyflawni'r Cenhadaeth Strategol. Roedd pob Arweinydd Gweithredol wedi cytuno ar y Genhadaeth Strategol. Cymeradwywyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yng nghyfarfod Bwrdd AIA ym mis Mai a chymerodd argymhellion o'r Aseiad Strwythuredig o'r llynedd i gynnal archwiliadau dwfn i drafod meysydd sy'n berthnasol i'r Pwyllgorau.</p> <p>Rhoddodd CO-L y wybodaeth ddiweddaraf am Genhadaeth 5 ac yn arbennig y dirwedd ariannu cynaliadwy.</p> <p>Esboniodd CO-L fod Cenhadaeth 5 yn genhadaeth eithaf amrywiol a oedd wedi ysgogi llawer o drafod ar y cyd ynghylch beth ddylai'r sgôr lefel darged fod ac felly roedd cryn amrywiaeth o ran y risg ynghylch pob un o'r canlyniadau penodol.</p> <p>Roedd y Genhadaeth yn cynnwys gweithlu ac roedd yr adnoddau a'r recriwtio yn faes datblygu allweddol. Nod y gwaith oedd dangos y cynlluniau a'r hyn yr oedd modd ei gyflawni yn y cynlluniau hynny ar gyfer pob un o'r meysydd allweddol hynny, gydag arweinwyr yn darparu diweddariadau yn erbyn eu cynlluniau.</p> <p>O safbwynt cyllid, y mater allweddol oedd cyllid cynaliadwy a sut y gellid datblygu model ariannu cynaliadwy.</p> <p>Sicrhawyd bod y cynllun ar y trywydd cywir yn dilyn dau fis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd ac nad oedd unrhyw beth o bryder na risg sylweddol o fewn y portffolio.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>DRAFOD archwiliad dwfn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a NODI'r diweddariad ar Genhadaeth Strategol 5.</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
5.3	<p>Adroddiad Iaith Gymraeg gan gynnwys Adolygiad Blynyddol Mwy Na Geiriau</p> <p>Cyflwynodd LT Adroddiad Blynyddol 'Mwy na Geiriau' sef y cyntaf ar gyfer y sefydliad, roedd yr adroddiad yn ymdrin â mis Medi 2022 i fis Mawrth 2023 ac amlinellodd y camau a gymerwyd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn</p>	Er Sicrwydd	Cam Gweithredu: Yr adroddiad i gynnwys yn benodol faint o swyddi

	<p>erbyn pwyntiau penodol yn y Cynllun 'Mwy na Geiriau'. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno oedd diwedd Gorffennaf 2023 a byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ôl y cyfarfod. Darparodd LT yr uchafbwyntiau canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd swydd-ddisgrifiadau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg a swyddi'n cael eu hysbysebu ar safleoedd swyddi Cymraeg • Roedd nifer y staff heb unrhyw sgiliau Cymraeg yn lleihau. • Bu cynnydd yn y dyraniad cyllideb ar gyfer cyfieithu. Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill y GIG i gaffael a rhannu system meddalwedd cof a fyddai'n helpu i leihau costau cyfieithu, ac roedd cynlluniau hefyd i recriwtio cyfieithydd mewnol. • Roedd ychydig o gamau coch ar Gynllun Gweithredu'r Gymraeg a oedd wedi'u diweddarau. • Roedd un rôl wedi'i hysbysebu fel rôl Cymraeg hanfodol (Lefel 4), roedd hon yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. • Roedd gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod cyfarfodydd, digwyddiadau a gohebiaeth yn ddwyieithog. • Derbyniwyd cyllid i ddatblygu safle Cymru Gyfan i rannu Arferion Gorau yn y Gymraeg a byddai dolen i'r wefan hon ar gael i'w rhannu yn y cyfarfod nesaf. <p>CAM GWEITHREDU: 20230703-A04 Mewn perthynas â recriwtio, gofynnodd y Cadeirydd i'r adroddiad, yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, gynnwys faint o swyddi newydd a aseswyd ar gyfer gofynion y Gymraeg yn benodol a hefyd dadansoddiad o ba lefel yr aseswyd swyddi iddi.</p> <p>CAM GWEITHREDU: 20230703-A05 Cytunwyd hefyd y byddai gwaith cymunedol, a wnaed neu a gynlluniwyd, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'r Adroddiad Iaith Gymraeg gan gynnwys Adroddiad Blynnyddol Mwy Na Geiriau er SICRWYDD.</p>		<p>newydd sydd wedi'u hasesu ar gyfer gofynion y Gymraeg a hefyd dadansoddiad o ba lefel yn aseswyd swyddi iddi.</p> <p>Cam Gweithredu: Cytunwyd hefyd y byddai gwaith cymunedol, a wnaed neu a gynlluniwyd, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf.</p>
5.4	<p>Adroddiad Safonau Ymddygiad</p> <p>Dywedodd LT wrth y Pwyllgor fod yr Adroddiad Safonau Ymddygiad yn amlinellu'r Datganiadau o Fuddiant a chofrestr Rhoddion, Nawdd a Lletygarwch ar gyfer Iechyd a</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

	<p>Gofal Digidol Cymru. Amlygwyd y pwyntiau allweddol o'r adroddiad:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ers yr adroddiad diwethaf, roedd Datganiadau o Fuddiannau holl Aelodau'r Bwrdd wedi'u cofnodi ar gyfer 2023/2024. • Roedd gwaith yn parhau i gasglu'r Datganiadau o Fuddiannau ar gyfer pob un o 8a ac uwch, ar adeg yr adroddiad, roedd 83% wedi'i dderbyn a'i gofnodi, roedd hyn yn ostyngiad bach ar ddata'r tro diwethaf ond roedd hyn oherwydd y cynnydd yn nifer y staff yn y sefydliad. • Roedd 24% o fand 2-7 wedi'i gasglu a chyfathrebiadau parhaus yn cael eu hanfon at staff i sicrhau eu bod yn llenwi'r ffurflen Datganiad o Fuddiannau. • Derbyniwyd 14 cofnod ar gyfer Lletygarwch / Nawdd ar y gofrestr. <p>Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r gwaith rhagweithiol sy'n digwydd ar Safonau Ymddygiad.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Adroddiad Datganiadau Buddiannau, Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer SICRWYDD.</p>		
5.5	<p>Diweddariad Cyllid</p> <p>Rhoddodd Mark Cox (MC), Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid, fanylion am y tair archeb oedd wedi cyrraedd y trothwy o £750,000 a drafodwyd yn ystod y cyfnod adrodd.</p> <p>Hysbyswyd y Pwyllgor na chodwyd unrhyw orchmynion unigol dros £0.75m yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2023 i 12 Mehefin 2023.</p> <p>Rhoddodd CO-L ddiweddariad ar faterion cyllid eraill:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon bellach yn cael eu cwblhau, ar ôl cwrdd â'r holl ofynion statudol. Bu'n heriol mantoli'r cynllun ariannol, oherwydd tri phrif reswm; ar ôl cynhyrchu'r cynllun, roedd bwch o 1.9 miliwn a oedd wedi deillio o gytuno ar gontractau ynni ar adeg pan oedd cost ynni yn uchel, pwysau chwyddiant a phrisiau cytundebol yn eithriadol a'r ansicrwydd ynghylch sefyllfa'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Byrddau Iechyd. Ysgrifennwyd llythyr at Lywodraeth Cymru ganol mis Mawrth i godi'r materion hyn ac yn dilyn hynny cynhaliwyd cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru lle cytunwyd ar gyfres o gamau gweithredu. Diweddarwyd y cynllun arbedion i adlewyrchu'r camau gweithredu a 	Nodwyd	Dim i'w nodi

	<p>galluogi'r cynllun i gydbwysu. Cyflwynwyd llythyr pellach i Lywodraeth Cymru ar 5 Mai yn amlinellu'r cynllun cytbwys, er yn gynllun oedd yn edrych ar y risgiau o gyflawni'r cynllun. Ychwanegwyd y risg at y Gofrestr Risg Gorfforaethol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwnaed diwydrwydd dyladwy ariannol ar RISP a LINC a thrwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd, bu modd cwblhau'r achos busnes yn derfynol. • Gofal Llygaid – roedd y tîm cyllid bellach yn mynd i mewn i fanylion y trosglwyddiad a goblygiadau ariannol y trosglwyddiad. • Roedd swyddi'n cael eu recriwtio cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gystadlu mewn meysydd o flaenoriaeth allweddol o fewn y gymuned Ddigidol. • Trafododd cyfarfod y Cydbwyllgor Gweithredol y sefyllfa ariannol bresennol. Roedd y sefyllfa ariannu cynaliadwy yn her, efallai y bydd modd rheoli eleni, fodd bynnag bydd y flwyddyn nesaf yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol. <p>Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn barod i gyflawni eu gofynion statudol a diolchodd i'r gyfarwyddiaeth gyllid am yr holl waith a wnaed i gyrraedd y pwynt hwn.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Adroddiad Archebion Prynu Gwerth Uchel a'r Archebion Cronnus.</p>		
5.6	<p>Diweddariad am Golledion a Thaliadau Arbennig</p> <p>Cadarnhaodd CO-L nad oedd unrhyw Golledion a Thaliadau Arbennig i adrodd amdanynt.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Diweddariad o'r Colledion a'r Taliadau Arbennig ar gyfer SICRWYDD.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
5.7	<p>Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo</p> <p>Cyflwynodd Julie Francis (JF), Pennaeth Gwasanaethau Masnachol, yr adroddiad rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mai 2023 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tri tendr sengl • Dau nodyn Rheoli Newid <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI cynnwys yr Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Chynllun Dirprwyo		
5.8	<p>Adroddiad Diweddarau ar Gydymffurfiaeth yr Uned Ansawdd a Rheoleiddio a Seibergadernid</p> <p>Cyflwynodd Paul Evans, Pennaeth Rheoleiddio, yr adroddiad a chyflwynodd y prif bwyntiau allweddol i'r Pwyllgor:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhaodd y rhaglen archwilio mewnol Risg i weithredu'n effeithiol. • Bu dau archwiliad allanol yn ystod y cyfnod; Roedd Systemau Rheoli Gwasanaeth TG ISO 20000 ac ISO 27001 yn llwyddiannus. • Yr unig archwiliad a gynlluniwyd ar gyfer y chwarter oedd i ddechrau ar ddiwrnod y cyfarfod. • Roedd y system Rheoli Ansawdd cynefino ar gyfer yr iPassport i fyny o'r chwarter diwethaf. • Roedd y Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi cynyddu nifer y polisiau a oedd yn gyfredol. • Mae ffigurau'r Rhestr Gweithredu Gwella Ansawdd (QIAL) yn parhau i wella. • Mae gwaith ar Reoliadau Dyfeisiau Meddygol yn parhau, ac mae MHRA yn rhagweld y bydd yn cyhoeddi deddfwriaeth wedi'i diweddarau yn ddiweddarach eleni. <p>Trafododd y Pwyllgor pa feysydd o'r Ddyletswydd Ansawdd oedd yn debygol o fod yn fwyaf heriol i'w cyflawni. Cadarnhaodd PE fod Llywodraeth Cymru yn hapus bod gweithrediad y Ddyletswydd Ansawdd yn ailadroddol, o ran cynnwys ac amllder adrodd ond ei bod yn her gweithio gyda phob Cyfarwyddwr a'r timau i ddeall sut olwg oedd ar eu proses busnes fel arfer a sut y gellid mesur ansawdd y prosesau hynny.</p> <p>Cydnabu'r Pwyllgor y mater o ran mesur ansawdd a wnaed yn anos pan oedd ansawdd yn gynhenid yn y ffordd yr oedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio. Sicrhaodd PE y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn fodlon cyn belled â bod cynllun ansawdd cadarn ar waith.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Adroddiad Diweddarau ar Gydymffurfiaeth yr Uned Ansawdd a Rheoleiddio a Seibergadernid.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi.
5.9	<p>Adroddiad ar Ddatgarboneiddio, Ystadau a Chydymffurfiaeth</p> <p>Cyflwynodd Julie Ash (JA), Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, y prif bwyntiau canlynol o'r adroddiad:</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

- Roedd staff ystadau wedi dilyn nifer o gyrsiau yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf ac oherwydd bod rôl newydd (Hwylusydd Datblygu'r Amgylchedd a Chydymffurfiaeth Ystadau) wedi'i chreu, roedd manteision i'w gweld. Roedd hyfforddiant hybu llythrennedd carbon yn cael ei gyflwyno ar draws y sefydliad.
- Roedd rhai opsiynau'n cael eu harchwilio ar gyfer rhannu llety ac roedd manteision hyn i'w gweld eisoes oherwydd bod yr ystâd yn lleihau.
- Cadarnhawyd i Lywodraeth Cymru y bwriad i adnewyddu'r Cynllun Gweithredu yn 2025. Roedd yr holl gamau gweithredu cyfredol wedi'u cwblhau.
- Parhaodd y gwaith o ymgysylltu â PCGC ar gyfer mesuriadau cyfrifo allyriadau caffael.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Datgarboneiddio newydd – trafndiaeth a chaffael mewn pryd (a nodir ar yr Agenda Cydsynio).

Rheolaeth Amgylcheddol

- Cadwyd tystysgrif ISO 14001 ar gyfer Systemau Rheoli Amgylcheddol a oedd wedi'i chadw ers 2014.
- Roedd 37 o gamau gweithredu wedi'u cau.
- Ni fu unrhyw ymholiadau na chwynion amgylcheddol.
- Roedd cydymffurfiaeth systemau ac offer peiriannau yn 100%, y targed oedd 90%. Roedd y penodiad newydd i'r tîm wedi bod yn allweddol i gyrraedd y ffigwr hwn.
- Roedd y gydymffurfiaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ac ataliol hefyd yn uchel iawn, sef 99%.
- Iechyd a Diogelwch – ni adroddwyd am unrhyw ddiogelwch yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Roedd yr allyriadau gweithredol a gyfrifwyd ar gyfer y flwyddyn i'w hadrodd erbyn mis Medi. Byddai'r data caffael yn cael eu hanfon gan y Cydwasanaethau erbyn diwedd y mis a oedd yn rhoi Iechyd a Gofal Digidol Cymru mewn sefyllfa dda i allu adrodd ar amser.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r cynnydd rhagorol sy'n cael ei wneud ar gyrraedd 100% ar gyfer y sgôr Cydymffurfiaeth Ystadau cyffredinol.

Penderfynodd y Pwyllgor:

	NODI'R Adroddiad ar Ddatgarboneiddio, Ystadau a Chydymffurfiaeth.		
RHAN 6	MATERION I GLOI		
6.1	<p>Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i'r Bwrdd</p> <p>Nododd y Cadeirydd yr eitemau a gafodd eu cymeradwyo, eu cefnogi a'u trafod i'w cynnwys yn adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ariannu cynaliadwy, nodwyd y cynnydd da y mae'r tîm cyllid yn ei wneud i gael cynllun cytbwys a chyflawni gofynion chwarter un. • Byddai'r Pwyllgor yn cadw'r risg dyled dechnegol mewn golwg ond byddai'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol • Canolfan Ragoriaeth – roedd nifer o argymhellion a meysydd dysgu sgematig. • Nodwyd y dull ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2023/2024. • Nodwyd y cynnydd a wnaed ar nifer y risgiau sy'n dod oddi ar y gofrestr risg. • Sicrhawyd y Pwyllgor gan yr eitemau sefydlog sy'n cyfleu'r perfformiad da y mae'r sefydliad wedi'i gyflawni dros y chwarter diwethaf a oedd yn dyst i'r trefniadau sydd ar waith. • Rhoi cyhoeddusrwydd i'r diweddariad ar hyfforddiant gorfodol atal twyll. 	Trafodwyd	Dim i'w nodi
6.2	<p>Unrhyw Faterion Brys eraill</p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
6.3	<p>Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 18 Gorffennaf 2023 cyfrifon archwiliedig • 17 Hydref 2023 	Nodwyd	Dim i'w nodi